CYFADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

TÎM COMISIYNU

Adroddiad Monitro Contract

Enw/Cyfeiriad y Darparwr: **Abacare**

Dyddiad yr ymweliad: **10 Rhagfyr 2019**

Swyddog(ion) Ymweld: **Caroline Roberts, Swyddog Monitro Contractau**

Yn bresennol: **Sam Price, Rheolwr y Gangen**
Sarah Jessica – Goruchwyliwr Ansawdd Gofal

Yn dynodi camau adfer

1. Cefndir

1.1 Mae Abacare wedi bod yn ddarparwr cofrestredig ar gyfer gwasanaethau gofal cartref ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ers Rhagfyr 2018. Ar adeg yr ymweliad, roedd y sefydliad yn darparu tua 409 awr o ofal a chymorth bob wythnos i 45 o unigolion.

1.2 Mae'r amrywiaeth o dasgau gofal a chymorth a ddarperir gan Abacare yn cynnwys gofal personol (e.e. cymorth gyda bath, ymolchi, gwisgo, meddyginiaethau, gofal personol, defnyddio'r tŷ bach), gofal maeth (e.e. cymorth gyda bwyta ac yfed, paratoi bwyd a diod, a monitro faint o fwyd a diod a gymerir), gofal symudedd (e.e. cymorth gyda mynd i mewn ac allan o'r gwely, symud yn gyffredinol), a gofal domestig (e.e. cymorth gyda glanhau, siopa, gwaith tŷ, trefnu apwyntiadau).

1.3 Cynhaliwyd yr ymweliad monitro contractau diwethaf ym mis Hydref 2018 pan oedd y darparwr yn cael ei adnabod fel Allied Healthcare. Roedd hwn yn ymweliad monitro llawn a phennwyd camau adfer a datblygu fel yr oedd yn briodol.

1.4 Gan ddibynnu ar y canfyddiadau yn yr adroddiad, bydd camau adfer a datblygu yn cael eu rhoi i'r darparwr eu cwblhau. Camau adfer yw'r rhai sy'n rhaid eu cwblhau (yn ôl y contract, deddfwriaeth ac yn y blaen) ac mae camau datblygu yn argymhellion arfer da.

2. Cafodd camau adfer/datblygu blaenorol eu codi o dan Allied Health Care

2.1 <u>Adfer</u>

2.1.1 Rhaid i gynlluniau 'Caniatâd i Ofalu' fod ar gael ym mhob ffeil, wedi eu llofnodi gan yr unigolyn sy'n derbyn y gwasanaeth, i ddangos eu bod wedi cymryd rhan yn y gwaith o baratoi'r Cynllun Personol a bod eu barn, eu dymuniadau

a'u teimladau unigol wedi cael eu hystyried. (Rheoliad 15 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA).
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus. **Canfyddiad:** Wedi'i gyflawni'n rhannol.

2.1.2 Dylai staff ddangos eu bod yn cynnal y gofal a'r cymorth angenrheidiol ac yn cofnodi eu bod wedi darparu'r holl ofal a chymorth angenrheidiol hwnnw, fel yr amlinellir yn y Cynllun Cefnogi a Gofal a'r Cynllun Personol (Rheoliad 21 RISCA 2016).
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus. **Canfyddiad:** Wedi'i gyflawni'n rhannol.

2.1.3 Dylai Cynlluniau Personol gael eu hadolygu a'u diweddaru'n barhaus i gynnwys unrhyw newidiadau yn anghenion gofal a chymorth unigolion (Rheoliad 16 RISCA 2016).
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus. **Canfyddiad:** Wedi'i gyflawni'n rhannol.

2.1.4 Pan fydd staff wedi'u cofrestru gyda gwasanaeth diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, rhaid i'r darparwr gwasanaeth wirio statws tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y person o leiaf unwaith y flwyddyn (Rheoliad 35 RISCA 2016).
Amserlen: Pan fo angen. **Canfyddiad:** Wedi'i gyflawni'n rhannol.

2.1.5 Dylid cyflwyno gweithdrefn gadarn o ran dechrau'r gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod yr holl gynlluniau personol a'r gwaith papur angenrheidiol ar gael i'r staff a'r unigolion sy'n derbyn y gwasanaeth (Rheoliad 15 RISCA 2016).
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus. **Canfyddiad:** Gwelwyd ffeiliau dau aelod o staff oedd wedi eu trosglwyddo drwy TUPE; byddwn yn parhau i fonitro'r maes hwn yn ystod ymweliadau yn y dyfodol.

2.1.6 Dylid atgoffa gofalwyr o'u cyfrifoldeb wrth reoli a rhoi meddyginiaeth a'r polisi meddyginiaeth. (Rheoliad 58 RISCA 2016).
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus. **Canfyddiad:** Ni nodwyd unrhyw faterion yn ystod y broses fonitro hon.

2.1.7 Dylai Allied ddarparu matrics hyfforddiant i'r Tîm Comisiynu (Rheoliad 36).
Amserlen: O fewn mis i ddyddiad yr adroddiad **Canfyddiad:** Heb ei gyflawni – ni chafodd ei ddarparu i'r swyddog monitro contractau o fewn yr amserlen a roddwyd.

2.1.8 Dylai Allied ddarparu matrics goruchwyliaeth i'r Tîm Comisiynu (Rheoliad 36).
Amserlen: O fewn mis i ddyddiad yr adroddiad. **Canfyddiad:** Heb ei gyflawni – ni chafodd ei ddarparu i'r swyddog monitro contractau o fewn yr amserlen a roddwyd.

2.2 <u>Camau datblygu</u>

2.2.1 Bydd adroddiad Sicrwydd Ansawdd yn cael ei ddatblygu ar gyfer ardal gwasanaeth Caerffili.

2.2.2 Dylid sicrhau bod staff y Swyddfa ar gael yn hawdd a'u bod yn ymateb yn brydlon i unigolion sy'n derbyn y gwasanaeth a hefyd i randdeiliaid.

3 Yr Unigolyn Cyfrifol a'r Rheolwr Cofrestredig

3.1 Gwelwyd adroddiad cangen, a oedd yn dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol wedi cyfarfod â'r staff un wrth un. Yn ystod y cyfarfodydd 1:1, trafodwyd hyfforddiant, goruchwyliaeth, hapwiriadau a sgyrsiau lles. Nodwyd bod cyfeiriad wedi ei wneud ynglŷn ag amser teithio "tynn".

3.2 Roedd yr Unigolyn Cyfrifol hefyd wedi cyfarfod â'r defnyddwyr gwasanaeth ac wedi cael adborth gwerthfawr. Cafodd unrhyw feysydd yr oedd angen sylw arnynt eu bwydo yn ôl i'r swyddfa.

3.3 Gwelwyd hefyd adolygiad Ansawdd Gofal 6 mis ar gyfer Awst 2019. Roedd yr adroddiad hwn yn ymdrin â meysydd megis cynllunio Gofal Cychwynnol, adolygiadau 7 diwrnod, Sicrhau Ansawdd, ymweliadau Chwarterol gan yr Unigolyn Cyfrifol, adborth gan staff. Mae'r adolygiad hefyd yn canolbwyntio ar yr hyn y gall y darparwr ei wella a'i ddatblygu.

3.4 Mae'r Rheolwr Cofrestredig wedi'i chofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac ar hyn o bryd mae'n rheoli mwy nag un gwasanaeth.

3.5 Mae'r Rheolwr Cofrestredig wedi cynllunio dyddiadau y bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â nhw. Nododd y Rheolwr Cofrestredig ei bod yn teimlo ei bod yn cael ei chefnogi gan yr Unigolyn Cyfrifol sy'n mynd i'r swyddfa gangen er mwyn cynnal archwiliadau 3 misol yr Unigolyn Cyfrifol.

5. Canfyddiadau

4.1.1 Cynllunio Gofal a Gwasanaethau

4.1.2 Archwiliwyd tair ffeil gofal unigol yn ystod yr ymweliad monitro. O'r tair ffeil yr edrychwyd arnynt, gwelwyd bod dwy yn cynnwys asesiadau cychwynnol manwl. Nodwyd cyflyrau meddygol a fyddai'n cael effaith ar yr unigolyn, ynghyd â sut i gyfathrebu ag unigolyn sydd â dementia.

4.1.3 O'r tair ffeil, dim ond un asesiad cychwynnol oedd wedi cael ei lofnodi gan yr unigolyn, tra bod y llall yn nodi nad oedd yr unigolyn yn gallu cydsynio ond nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod cynrychiolydd y teulu wedi cymryd rhan.

4.1.4 Gwelwyd rhestrau o amserau galw ar y tair ffeil.

4.1.5 Gwiriwyd y Cynlluniau Personol yn erbyn cynllun Gofal a Chymorth CBSC ac roedd yr holl dasgau a nodwyd wedi'u trosglwyddo. Fodd bynnag, gwelwyd un ffeil oedd ond yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol. Roedd cynllun Gofal a Chymorth CBSC yn nodi sut y dylid trin yr unigolyn wrth gael ei ddeffro a pha gymorth i'w ddarparu i ailgynefino'r unigolyn â'i gartref. Nid oedd hyn wedi'i gynnwys yn y Cynllun Personol.

4.1.6 Gwelwyd bod rhai Cynlluniau Personol yn cael eu hysgrifennu â llaw, tra bod eraill yn cael eu teipio. Gwelwyd bod y cynlluniau oedd wedi'u teipio yn llawer mwy manwl ac yn cael eu hamlinellu'n ddyddiol o ran pa gefnogaeth a chymorth a roddir i unigolyn.

4.1.7 Roedd un o'r Cynlluniau Personol wedi cael ei lofnodi gan unigolyn a oedd yn derbyn cymorth, ond nid oedd llofnodion priodol gan yr unigolion na'u cynrychiolwyr ar y ddwy arall a welwyd.

4.1.8 Roedd gan un o'r ffeiliau a welwyd Gynllun Personol manwl iawn o'i gymharu â'r ddwy ffeil arall a welwyd. Roedd y cynllun manwl (wedi'i deipio) yn cynnwys sut y dylai staff gyflwyno eu hunain, lle gellir lleoli'r unigolyn yn yr eiddo pan fydd yn cyrraedd, hoffterau/cas bethau, manylion am alluoedd yr unigolyn a'r hyn y gellir ei gyflawni'n annibynnol ac ati. Pe bai aelod newydd o staff yn ymuno â'r tîm, byddai'r cynllun personol yn esbonio'n ddyddiol sut y bydd y cymorth yn cael ei ddarparu; fodd bynnag, ystyriwyd nad oedd y ddau gynllun personol arall a welwyd yn ddigon manwl i roi digon o gymorth i'r staff, yn enwedig y rhai nad ydynt efallai'n ymweld â'r unigolyn/unigolion yn rheolaidd neu sy'n newydd i'r gwasanaeth. Trafodwyd hyn gyda Rheolwr y Gangen.

4.1.9 Ar gyfer dwy ffeil a welwyd, dim ond dau adolygiad a welwyd, ac roedd y ddwy ffeil yn dangos bod ymweliad ac adolygiadau dros y ffôn wedi'u cynnal ym mis Hydref a mis Tachwedd 2019. Roedd y drydedd ffeil a welwyd yn dangos bod adolygiad dros y ffôn wedi'i gynnal ym mis Mehefin 2019; felly, trafodwyd yr angen am adolygiadau rheolaidd gyda Rheolwr y Gangen.

4.1.10 Gwelwyd Asesiadau Risg yn y ffeil pan oedd eu hangen ar gyfer tasgau perthnasol.

4.1.11 Nododd un cynllun Gofal a Chymorth a Chynllun Personol CBSC fod unigolyn yn dueddol o ddioddef diffyg maeth a diffyg hylif; fodd bynnag, gwelwyd yn y cofnodion dyddiol, nad oedd y staff yn nodi sut roeddent yn annog yr unigolyn i fwyta/yfed ac wrth wrthod, pa gamau oedd yn cael eu cymryd h.y. a oedd y swyddfa, y gweithiwr cymdeithasol a chynrychiolydd y teulu yn cael gwybod bod angen cyngor meddygol. Trafodwyd hyn gyda Rheolwr y Gangen a ddywedodd y byddai hyn yn cael ei drafod â'r staff gofal a oedd yn bresennol.

4.1.12 Wrth edrych ar y cofnodion dyddiol, gwelwyd bod rhai aelodau o staff wedi methu â llofnodi'r cofnodion dyddiol; codwyd hyn gyda Rheolwr y Gangen.

4.1.13 Roedd y cofnodion a welwyd yn dangos bod dilyniant da o ran gofalwyr i un unigolyn, tra roedd profiad y ddau arall o ofalwyr yn uwch na'r trothwy parhad gofalwyr.

4.2 <u>Perfformiad Gwasanaeth</u>

4.2.1 Mae system monitro galwadau electronig ar waith. Mae gofalwyr yn defnyddio ffonau symudol i logio i mewn ac allan o alwadau.

4.2.2 Mae Cynllunydd Pobl ar waith fel y gall gofalwyr gysylltu â'r swyddfa gydag unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Mae negeseuon yn cael eu cyfleu drwy e-bost, sydd wedyn yn cael eu rhannu gyda'r unigolyn priodol h.y. gweithiwr cymdeithasol, gweithwyr meddygol proffesiynol.

4.2.3 Rheolir rhybuddion y Cynllunydd Pobl rhwng 09:00 a 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener a chysylltir â'r staff os nad ydynt wedi mewngofnodi. Caiff rhybuddion ar ôl 17:00 eu rheoli, a gweithredir arnynt gan y tîm ar ôl oriau.

4.2.4 Bydd gwaith cymharu ymweliadau a gynllunnir yn erbyn ymweliadau gwirioneddol yn cael eu gweithredu ar ddechrau 2020. Bydd hyn yn golygu cynnal archwiliadau a chymharu'r system monitro galwadau electronig â'r llyfrau log.

4.2.3 Wrth gymharu'r ymweliadau a gynlluniwyd yn erbyn ymweliadau gwirioneddol, nodwyd nad oedd pob galwad yn para am y cyfnod penodedig. Dylid atgoffa staff os yw galwadau'n cymryd llai o amser na'r hyn sydd ar y rota, y dylent roi gwybod i staff y swyddfa fel y gall yr awdurdod lleol gynnal adolygiad.

4.3 <u>Recriwtio, Hyfforddiant ac Arolygu</u>

4.3.1 Gwelwyd ffeiliau personél dau aelod o'r staff gofal yn ystod yr ymweliad, ac roedd y ddwy ffeil a welwyd yn ffeiliau aelodau o staff a oedd wedi'u trosglwyddo drwy TUPE (*Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (diogelu cyflogaeth)*) o'r busnes blaenorol sef Allied Health Care i Abacare.

4.3.2 Nid oedd gan y naill ffeil na'r llall ddisgrifiad swydd a dim ond un ohonynt oedd yn cynnwys ffurflen gais gan fod yr unigolyn wedi gwneud cais am rôl uwch o fewn Abacare. Gwelwyd cofnod o gyfweliad; fodd bynnag, nid oedd unrhyw system sgorio yn amlwg i ddangos a oedd yr unigolyn yn ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer y rôl. Fodd bynnag, ar gyfer yr ail ffeil a welwyd, gwelwyd system sgorio.

4.3.3 Nodwyd bwlch mewn cyflogaeth wrth edrych ar y ffurflen gais a thynnwyd sylw Rheolwr y gangen at hyn. O ran recriwtio staff, mae'n ofynnol i bob ymgeisydd egluro unrhyw fylchau a nodwyd mewn cyflogaeth.

4.3.5 Dim ond un ffeil oedd yn cynnwys contract cyflogaeth, ac roedd y ddwy ffeil yn cynnwys ffotograff o'r aelod o staff. Roedd un ffeil yn cynnwys copi o dystysgrif geni a dim ond un ffeil oedd yn cynnwys gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Trafodwyd hyn gyda Rheolwr y Gangen a eglurodd y byddai rhai o'r dogfennau'n cael eu cadw yn eu swyddfa bersonél ganolog.

4.3.6 Roedd tystysgrifau hyfforddiant ar gyfer cyrsiau perthnasol a fynychwyd wedi'u cynnwys mewn un ffeil, tra bod yr ail ffeil yn cynnwys lleiafswm o dystysgrifau. Rhannwyd y rhain gyda'r Swyddog Monitro yn ddiweddarach.

4.3.7 Mae Abacare yn darparu cymorth parhaus i staff gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n ofyniad erbyn Ebrill 2020.

4.3.8 Mae'r darparwr yn defnyddio hapwiriadau staff i sicrhau cymhwysedd ac i wirio agweddau eraill hefyd megis prawf adnabod, gwisg, a ddilynwyd y cynllun personol, prydlondeb ac ati.

4.3.9 Mae'r staff yn cael eu cynorthwyo i gyflawni eu rôl drwy gymysgedd o oruchwyliaeth, hapwiriadau a chyfarfodydd tîm.

4.3.10 Drwy gydol y flwyddyn, mae'r staff yn derbyn goruchwyliaeth bob tri mis, hapwiriadau ar y 5ed a'r a'r 11eg o bob mis ynghyd â gwerthusiad blynyddol.

4.3.11 Gwelwyd Matrics Hyfforddiant Staff a oedd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi mynychu cyrsiau gorfodol priodol h.y. diogelu, codi a chario, meddyginiaeth, rheoli haint, hylendid bwyd. Roedd y matrics hefyd yn nodi staff yr oedd angen adnewyddu eu hyfforddiant.

4.3.12 Gwelwyd matrics goruchwyliaeth staff. Mae'r matrics yn defnyddio golau traffig i ddynodi pa oruchwyliaeth a gyflawnwyd, pa oruchwyliaeth a ddisgwylir yn ystod y mis nesaf pa ddyddiadau a nodwyd ar gyfer arfarniadau, goruchwyliaeth a hapwiriadau.

4.4 <u>Adborth Gofalwyr</u>

4.4.1 Siaradwyd â dau ofalwr yn ystod y broses fonitro. Dywedodd un gofalwr nad oedd amser teithio wedi'i gynnwys yn yr amserlen, a dywedodd yr ail ofalwr na roddwyd digon o amser teithio.

4.4.2 Wrth edrych ar sampl o restrau dyletswyddau gofalwyr, nodwyd nad oedd digon o amser teithio wedi'i gynnwys yn yr amserlen ar adegau i ystyried amser y dydd h.y. oriau brig a'r amser y byddai'n cymryd i ofalwr deithio o A i B. Felly, mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i hyn yn y maes hwn.

4.4.3 Dywedodd y ddau ofalwr eu bod yn cael digon o amser i ddarparu'r gofal angenrheidiol ar gyfer yr unigolion roeddent yn eu cynorthwyo a'u bod yn teimlo bod y rota yn dderbyniol; fodd bynnag, mae problemau'n codi pan na fydd cydweithwyr ar gael ar fyr rybudd.

4.4.4 Roedd y gofalwyr yn teimlo bod eu goruchwylydd yn eu cefnogi; fodd bynnag, dywedodd un eu bod yn dal i ddod i adnabod y goruchwylydd gan fod y swyddog yn newydd.

4.4.5 Dywedodd y gofalwyr eu bod yn teimlo eu bod wedi cael sesiynau cynefino, cysgodi a hyfforddiant priodol er mwyn darparu'r gofal gorau i'r unigolion y maent yn eu cefnogi. Dywedodd y ddau hefyd fod y wybodaeth yng nghartref yr unigolyn, h.y. cynlluniau personol, cynlluniau codi a chario, yn ddigonol i'w galluogi i gefnogi unigolion.

4.5 <u>Adborth Cleientiaid</u>

4.5.1 Ymwelwyd â/ffoniwyd 7 o gwsmeriaid Abacare i gasglu adborth ar y gwasanaeth a dderbyniwyd. Gofynnwyd i'r cwsmeriaid beth oedd yn bwysig

iddynt am y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn a dywedwyd eu bod am gael gofalwyr rheolaidd, eu bod am aros yn annibynnol, cynnal eu hylendid a'u hiechyd personol, a chadw eu hanwyliaid allan o'r ysbyty

4.5.2 Roedd pob un o'r 7 cwsmer/cynrychiolydd yn canmol y staff gofal, gan ddweud bod y staff yn "ffantastig", "mae'n wych", "yn fendigedig", a'u bod "yn falch iawn o'r gwasanaeth". Dywedodd pob unigolyn a gymerodd ran mewn darparu adborth eu bod yn cael eu trin â pharch ac urddas.

4.5.3 Fodd bynnag, dywedodd 3 allan o'r 7 cwsmer na chawsant wybod os oedd eu gofalwr/gofalwyr yn rhedeg yn hwyr a dim ond 1 oedd yn teimlo bod y gofalwr/gofalwyr yn ymddangos fel petaent yn rhuthro.

4.5.4 Dywedodd 2 unigolyn fod galwadau wedi'u methu ar brydiau a dywedodd pob un o'r 7 fod y gofalwyr wedi aros am y cyfnod cywir.

4.5.5 Gofynnodd 3 unigolyn am newid mewn amser a chafodd hyn ei fwydo yn ôl i Reolwr y Gangen.

4.5.6 Ar y cyfan, roedd yr adborth a ddarparwyd yn gadarnhaol o ran y gofal a ddarparwyd: fodd bynnag, dywedodd cwsmeriaid pe bai eu gofalwyr rheolaidd yn absennol, roedd problemau'n ymwneud â'r alwad. Tynnwyd sylw Rheolwr y Gangen at y mater hwn hefyd.

5. Camau Adfer a Datblygu

5.1 <u>Adfer</u>

5.1.2 Dylai'r cynllun personol cychwynnol a'r cynllun personol diwygiedig gael eu cyd-gynhyrchu gyda'r unigolyn ac unrhyw gynrychiolydd – Rheoliad 15 RISCA.
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus i gwsmeriaid newydd a chwsmeriaid presennol y gwasanaeth.

5.1.3 Dylai'r cynlluniau personol ystyried y manylion a gofnodir yn y cynllun gofal a chymorth a baratowyd gan yr Awdurdod Lleol - Rheoliad 15 RISCA
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus

5.1.4 Dylai Cynlluniau Personol gael eu hadolygu yn ôl yr angen ac o leiaf bob tri mis- Rheoliad 16 RISCA
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus

5.1.5 Dylid sicrhau bod Gweithwyr Gofal yn deall pwysigrwydd dwysáu unrhyw bryderon o ran diet unigolyn neu os bydd yn ymddangos fel pe bai'n colli neu'n magu pwysau.
Dylid sicrhau, pan fo'n briodol, fod manylion bwyta bwyd/prydau/byrbrydau a/neu hylifau yr unigolyn yn cael eu cofnodi yn briodol ac yn gyson er mwyn cyfrannu tuag at fonitro lles ac iechyd yr unigolyn – contractau y cyd CBSC a BG (9.3)
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus

5.1.6 Dylai'r Darparwr Gwasanaeth sicrhau bod Gweithwyr Gofal yn cwblhau'r cofnod dyddiol yn ystod pob ymweliad a bod y cofnodion hynny yn ffeithiol, yn ddarllenadwy ac yn ddigon manwl. Dylai gweithwyr gofal lofnodi a dyddio'r cofnodion ac ni ddylent fod yn ailadroddus. Contract ar y cyd CBSC a BG (16.12)
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus.

5.1.7 Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau ar waith i sicrhau bod unigolion yn cael parhad gofal o'r fath fel sy'n rhesymol i fodloni eu hanghenion o ran gofal a chymorth – Rheoliad 22 RISCA a chontract ar y cyd CBSC a BG (8.8)
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus

4.1.6 Dylid darparu hanes cyflogaeth llawn gydag esboniad ysgrifenedig boddhaol o unrhyw fylchau mewn cyflogaeth. - Rheoliad 35 RISCA
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus

5.1.9 Rhaid i'r amser a neilltuir ar gyfer amser teithio fod yn ddigonol o ystyried (a) y pellter rhwng lleoliad un ymweliad a drefnwyd a'r ymweliad nesaf a drefnwyd; a (b) unrhyw ffactorau eraill y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt effeithio ar amser teithio, megis tagfeydd traffig ac argaeledd parcio yn lleoliad yr ymweliadau a drefnwyd – Rheoliad 41 RISCA
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus

5.1.10 Dylai'r Darparwr Gwasanaeth sicrhau bod Gweithwyr Gofal yn deall pwysigrwydd adrodd am y newidiadau angenrheidiol o ran hyd galwadau i uwch aelod o staff neu swyddfa Contract ar y cyd CBSC a BG
Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus

5.2 Datblygu

5.2.1 Ni nodwyd unrhyw gamau datblygu.

6. Casgliad

6.1 Roedd yn dda cael adborth da gan unigolion a oedd yn derbyn y gwasanaeth yn y gymuned a hefyd bod ganddynt berthynas dda â'r gofalwyr. Fodd bynnag, dywedwyd y byddai'r swyddfa yn ei chael yn anodd cyflawni rhai galwadau pe byddai gofalwyr rheolaidd yn absennol. Mae angen rhoi sylw brys i'r mater hwn, er mwyn darparu gwasanaeth cyson.

6.2 Ers mis Mawrth 2019, mae 8 aelod o staff wedi gadael Abacare. Roedd 4 wedi gwneud y penderfyniad nad oedd y rôl yn addas ar eu cyfer, roedd 2 wedi gadael i fynd i swydd arall, roedd 1 wedi gadael drwy gyfrwng rheoli perfformiad a gadawodd yr wythfed aelod o staff am resymau personol.

6.3 Yn unol â'r strategaeth monitro contractau, bydd yr ymweliad monitro nesaf â'r swyddfa yn cael ei gynnal ymhen tua 12 mis, oni bai yr ystyrir bod angen cynnal ymweliad cyn hynny.

6.4 Dymuna'r Swyddog Monitro Contractau ddiolch i'r staff yn Abacare am eu hamser a'u croeso yn ystod yr ymweliad.

Awdur: Caroline Roberts
Swydd: Swyddog Monitro Contractau
Dyddiad: 20 Ionawr 2020

Noder: Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau caled hefyd ar gael i ddarpar breswylwyr a/neu eu teuluoedd os byddant yn gofyn am gael eu gweld.